

# CANLLAW I RIENI AR Y MESUR TEITHIO GAN DDYSGWYR (CYMRU) 2008



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**YNG NGHYMRU, MAE'R GYFRAITH YN NODI BOD RHAID I BLANT  
DDERBYN ADDYSG O PAN FYDDAN YN 5 OED TAN EU BOD YN 16 OED.**

**MAE BRON POB PLENTYN YN MYND I YSGOL I GAEL EI ADDYSG.**

**MAE GAN RIENI'R HAWL I DDEWIS BLE A SUT MAE EU PLANT YN CAEL EU HADDYSGU.**

**ARWEINIAD SYLFAENOL I'R GYFRAITH YW'R NODYN HWN,  
AC NID DISODLI'R GYFRAITH BERTHNASOL YW EI NOD.**

## **CLUDIANT I'R YSGOL – MESUR TEITHIO GAN DDYSGWYR (CYMRU) 2008**

Mae'r gyfraith cludiant i'r ysgol yng Nghymru wedi'i nodi yn Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Fodd bynnag, mae deddfwriaethau eraill, megis Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Gwybodaeth am Deithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2009 hefyd yn berthnasol.

Yn ôl y gyfraith:

- bydd plant ysgol gynradd yn derbyn cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol os ydynt yn byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf a
- bydd plant ysgol uwchradd yn derbyn cludiant am ddim os ydynt yn byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf

(oni bai bod awdurdod lleol yn trefnu i'r plentyn fod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol yn nes at y cartref, neu wedi trefnu i'r plentyn letya yn yr ysgol neu gerllaw iddi).

Awdurdodau lleol sy'n penderfynu pa ysgol yw'r ysgol addas agosaf drwy ystyried oedran a gallu'r plentyn; gan gynnwys unrhyw anawsterau dysgu. Nid yw ffydd nac iaith dysgu'r ysgol yn ffactorau y mae awdurdodau lleol yn eu hystyried wrth benderfynu pa ysgol yw'r ysgol addas agosaf.

Mae gan rai plant ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig sy'n enwi ysgol annibynnol y gallant ei mynychu. Os yw'r ysgol gynradd a enwir 2 filltir neu fwy o gartref y plentyn, neu os yw'r ysgol uwchradd a enwir 3 milltir neu fwy o gartref y plentyn, bydd yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant am ddim oni bai ei fod wedi trefnu i'r plentyn fod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol sy'n nes at y cartref, neu wedi trefnu i'r plentyn letya yn yr ysgol neu gerllaw iddi.

Os bydd rhieni yn dewis ysgol ar gyfer eu plentyn nad yw'r awdurdod lleol yn ei hystyried yn ysgol addas agosaf, yna ni fydd gan y plant yr hawl i gludiant am ddim i'r ysgol.

## **LLWYBRAU A GERDDIR I'R YSGOL**

Y rhieni sy'n gyfrifol am benderfynu a all plentyn gerdded i'r ysgol ar ei ben ei hun ai peidio. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion trafndiaeth plant sy'n cerdded i'r ysgol.

Rhaid i awdurdodau lleol asesu natur y llwybrau a gerddir gan y plant. Os yw'r rhiant yn poeni am y llwybr i'r ysgol, gallant ofyn i'r awdurdod lleol os yw wedi cael ei asesu fel llwybr sydd ar gael i'r plant ei ddefnyddio.

1 Adran 8 o Ddeddf Addysg 1996 a Gorchymyn Addysg (Dechrau Oedran Ysgol Gorfodol) 1998

2 Adran 9 o Ddeddf Addysg 1996

3 Gweler Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 drwy glicio ar y ddolen ganlynol  
[www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/2/contents/enacted/welsh](http://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2008/2/contents/enacted/welsh)

4 Adran 3(6) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

5 Adran 324 o Ddeddf Addysg 1996

6 Mae Adran 2(2) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 yn gosod allan bod awdurdodau lleol, pob blwyddyn academaidd, o dan ddyletswydd i asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardaloedd ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol

Mae hawl gan rieni weld adroddiad asesu.

Gall rhieni ofyn i'w hawdurdod lleol am asesiad ar lwybr cerdded os oes ganddynt bryderon ynghylch diogelwch.

Os nad yw llwybr yn ddiogel i'w gerdded, gall awdurdodau lleol weithio i'w wneud yn ddiogel. Fodd bynnag, os nad yw llwybr yn ddiogel a ni ellir ei wneud yn ddiogel, rhaid i'r awdurdod ddarparu cludiant am ddim er mwyn i'r plant fynychu'r ysgol.

Gall plant gerdded gydag oedolion, ffrindiau neu grwpiau mewn 'bysiau cerdded' os nad yw'r rhiant yn teimlo y bydd y dysgwr yn ddiogel ar ei ben ei hun. Gall grwpiau cymunedol drefnu gweithgareddau teithio megis helpu rhieni i rannu'r dasg o hebrwng plant i'r ysgol ac oddi yno.

## **COD YMDDYGIAD WRTH DEITHIO**

Mae'r Cod Ymddygiad wrth Deithio yn nodi safonau ymddygiad dysgwyr rhwng 5 a 19 oed waeth sut maent yn teithio i'r ysgol. Y nod yw cadw plant yn ddiogel wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno, gan gynnwys teithio rhwng ysgolion.

Gall awdurdod lleol wrthod cludiant i blant nad ydynt yn dilyn y Cod Ymddygiad wrth Deithio. Cynghorir rhieni i wneud eu plant yn ymwybodol o'r Cod Ymddygiad wrth Deithio. Os tynnir trafndiaeth yn ôl pan na fydd plentyn wedi dilyn y Cod Ymddygiad wrth Deithio, y rhieni fydd yn gyfrifol am drefnu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer y cyfnod.

Am fwy o wybodaeth am bob agwedd ar y polisi teithio ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, gallwch glicio ar y ddolen ganlynol: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/140616-ltog-cy-v2.pdf>